Cynllun Benthyciadau

Gwella Cartrefi Llywodraeth Cymru (HILS)

Benthyciadau tymor-byr a di-log rhwng £1,000 a £25,000 ar gyfer Perchnogion Preswyl, Landlordiaid, Datblygwyr ag Elusennau i wneud eu cartref yn gynnes ac yn ddiogel.

BETH SYDD AR GAEL?

- Benthyciad dewisol hyd at **£25,000** i gynorthwyo perchnogion i wella safon ei heiddo.
- Fydd cynnigion benthyciadau rhwng lleiafswm o **£1,000** hyd at uchafswm o **£25,000** fesul uned o lety, efo uchafswm o **£150,000** i bob ymgeisydd ar unrhyw adeg.
- Uchafswm cymhareb benthyciad o 80% yn seiliedig ar werth yr eiddo ar y farchnad gyfredol, a chyflwr yr eiddo.
- Bydd pob benthyciad yn cael ei gynnig yn ddi-log, ond bydd ffi weinyddol o £500 yn cael ei ychwanegu at y benthyciad neu yn cael ei dalu o flaen llaw.
- Bydd pob benthyciad yn cael ei weinyddu gan **Street-UK.**

CYMHWYSEDD

- Mae'r cymorth yma yn **DDEWISOL..**
- Mae'r benthyciad yma ar gael i:

  Perchnogion Preswyl

  Landlordiaid (Unigolion a Chwmnïau)

  Datblygwyr (Partneriaethau a Chwmnïau)

  Elusennau/Y Trydydd Sector
- Fe fydd gallu'r ymgeisydd i ad-dalu'r benthyciad yn cael ei benderfynu gan **Street-UK**.

CAIS

- Rhaid i geisiadau gael ei chefnogi gan bris a gymeradwywyd, a phrawf teitl. Mae'r gost o'r rhain yn cael eu cynnwys yn y ffi weinyddol o £500.
- Os nad yw'r benthyciad yn cynnwys costau llawn y gwaith, mi fydd angen tystiolaeth fod gweddill yr arian ar gael ar gyfer cwblhau'r prosiect o'r cychwyn.

AMODAU

- Rhaid i Berchnogion Preswyl ad-dalu'r benthyciad o fewn **7 mlynedd**.
- Mae'n rhaid i Landlordiaid, Datblygwyr ac Elusennau ad-dalu'r benthyciad o fewn **5 mlynedd**.
- Bydd pob benthyciad yn cael ei sicrhau fel arwystl gyntaf neu ail yn erbyn teitl y Gofrestrfa Tir.

SUT I GYSYLLTU?

I ofyn am ffurflen datganiad o ddiddordeb cysylltwch â ni:

Tai Sector Preifat

Adran Tai

Cyngor Gwynedd Council

Cae Penarlâg

Dolgellau

Gwynedd

LL40 2YB

01341 424371 // 01341 424351

taigwag@gwynedd.llyw.cymru

www.gwynedd.llyw.cymru